# y dinesydd

Tachwedd 1999 — PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH — Rhif 250


# PENCAMPWYR Y DEGAWD

## Pencampwyr Criced

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf mae Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Yr Eglwys Newydd, wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl cystadleuaeth criced. Ond cafwyd y llwyddiant mwyaf yng Nghystadleuaeth 'Kwik Cricket' a noddir gan Wrigleys. Allan o naw ymgais mae Melin Gruffydd wedi cyrraedd y rownd derfynol wyth gwaith ac wedi bod yn Bencampwyr y Sir chwe gwaith.

Nid yn unig hynny, ond mae Melin Gruffydd wedi mynd ymlaen o'r gystadleuaeth sirol i fod yn Bencampwyr De Cymru ddwy flynedd yn olynol, yn 1998 a 1999. Golyga hyn i'r ysgol gael y fraint o gynrychioli De Cymru - y llynedd yn Edgbaston ac eleni yn Trent Bridge - ym Mhencampwriaethau Prydain. Dim ond o drwch blewyn - ar y bêl olaf - y methodd Melin Gruffydd gyrraedd y rownd gyn-derfynol.




*Tîm buddugol Melin Gruffydd '99*
**Cefn:** David Jones, Luke Adams, Daniel Preece, Chris Reed (wicedgadwr tîm criced Lloegr), Thomas Nolan, Tomos Rogers, Mr Alun Higham (hyfforddwr).
**Blaen:** Kyleigh Powell, Gareth Jones, Gareth Slade, Rosa Thomas, Steffan Shaw.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

## CWPAN Y BYD - Ddwywaith!

Mae 1999 wedi bod yn flwyddyn gyffrous iawn i ddisgyblion Melin Gruffydd. Yn yr haf, fel y gwelir uchod, cafodd eu tîm criced lwyddiannau ysgubol ac yn goron ar y cyfan gwahoddwyd y tîm i fod yn rhan o weithgareddau Cwpan Criced y Byd.

Cafodd Clwb Criced Morgannwg y fraint o gynnal un gêm yn y gystadleuaeth yng Ngerddi Sophia, a hynny rhwng neb llai nag Awstralia a Seland Newydd. Bu'r ysgol yn rhan o arddangosfa 'Kwik Cricket' yn ystod y sesiwn ginio. Profiad bythgofiadwy i'r disgyblion wrth iddynt ddangos eu doniau o flaen torf anferth a gwerthfawrogol! Fel y dywedodd Gareth Slade, "Hwyl oedd gweld Tomos Rogers a Tomos Davies yn taro'r bêl am '6' i mewn i'r dorf".

Yna, am fod cantorion yr ysgol wedi cael llwyddiannau ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn yr haf cafodd 30 ohonynt y fraint o fod yn rhan o gôr mawr yr Urdd (250 o leisiau) a ymddangosodd yn Seremoni Agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd yn Stadiwm y Mileniwm ar 1 Hydref. Oedden, roedden nhw yno!


**Am brofiad un o'r plant a fu yno ac ymateb un o'r rhieni, trowch i dudalen 11.**




# Y Dinesydd

**Tachwedd 1999, Rhif 250. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Rhagfyr at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 23 Tachwedd:**

**Newyddion o'r Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol a newyddion cyffredinol at:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 628754 ) **neu** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 404906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

.............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................


.............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

# CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 12** **Tachwedd 1999**



**Ar Draws**

2. Blodau o'r pentref mwyaf yng Nghymru? (5)
5. Cywair tarw gwyllt (4)
7. Berfa heb eu hail wedi torri blew (4)
8. Ffoli ar orig i win amrywiol (8)
9. Anfadwaith digon i wneud dyn i grio (8)
11. Bron sathru yr heol (4)
12. '.... ...... ... yr awyr las
Rwyf ynddo'n chwennych byw' (W.W.) (4,6,3)
15. Angen un mewn gras (4)
17. Taniwr y llywodraeth gynt (4,4)
19. Ffrwydron ar gyfer y pumed (3,5)
21. Ymryson am fudd 550 (4)
22. Yn methu siarad dim ond yn symud (4)
23. Dim loes dirdynnol am byth (5)

**I Lawr**

1. Wow! Gair tanllyd yn codi'r haul (7)
2. Nifer yn dechrau rhedeg isadran frwdfrydig (3)
3. Ie, yn Sbaen, mae mwyn o'r ddaear yn crynu (5)
4. Marc yn dilyn y Bonwr Tomos a minnau yn ysol (7)
5. Torri am yn ail ar ôl dau (3)
6. Treisiad yng nghanol llannerch (5)
10. Sefydlu rhywbeth ffug (5)
11. 'Pob ..... , pob sant
Hynafgwyr a phlant
Gogoniant a ddodant i Dduw' (E.J.) (5)
13. Y swyddog amheus yn cario'r bach (7)
14. Cyfnewidiol gweld naw Lada wedi torri (7)
16. Cymhwyso y dyn cyntaf a murmur (5)
18. Llysiau yn codi'n swta wedi'r olaf o Awst (5)
20. Gor gymysgu'r graean (3)
21. Tegan dan do yn y cae (3)

**Atebion Croesair 11**

**Ar Draws:** 1. Bagad; 4. Cenllysg; 8. Arallfydol; 9. Gwy; 10. Dirprwy; 12. Tyst; 14. Hwyaden; 17. Asyn; 18. Ofnadwy; 20. Ner; 21. Gweddi daer; 23. Newynog; 24. Dolef.

**I Lawr:** 1. Brawd cadarn yn; 2. Gwarro; 3. Difyrrwr; 4. Cyd; 5. Neli; 6. Ysgwyd; 7. Gwynt yr Hydref; 11. Ymado; 13. Heintiad; 15. Cyfryw; 16. Adfail; 19. Egin; 22. Eog.

**Croesair Rhif 11**

Derbyniwyd naw datrysiad - y cyfan yn gywir ond am un gwall bach yn un ohonynt. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd Mair Morgan, 9 Kingsland Road, Treganna. Fe fydd tocyn llyfrau ar ei ffordd iddi hi yn fuan.

**Cystadleuaeth Tachwedd 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 25 Tachwedd.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

## Calendr y Dinesydd

**Iau, 11 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Cedars, Llanisien (dros y ffordd i Westy'r Phoenix) am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan Eirian Thomas Swyddog Addysg Adran yr Amgylchedd, Dinas Caerdydd. Manylion pellach: Valmai Evans (314517).
**Iau, 11 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Myfyrdod ar y Mileniwm' gan y Parch. Ddr T. J. Davies, yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m.
**Gwener, 12 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs am Batagonia gan Gwilym Roberts, yn neuadd Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Gwener, 12 Tachwedd**
Tabernacl, Yr Ais: 'Penny Readings', wedi'u trefnu gan Carys Burston a Bryn Evans, am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 13 Tachwedd**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St./Harriett St., Cathays: Cyfarfod arbennig am 2 p.m. i ddathlu pen-blwydd yr eglwys yn 20 oed. Pregethwr gwadd: Parch. Meirion Thomas (Casnewydd). Croeso cynnes i bawb.
**Llun, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Gwyddoniaeth Codi Adeiladau'. Darlith gan Gerallt Nash (Amgueddfa Werin Cymru) ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 16 Tachwedd**
Cymrodorion y Barri: 'Botymau'. Sgwrs gan Hannah Roberts, Caerdydd, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mawrth, 16 Tachwedd**
Tabernacl, Yr Ais: Noson gyda Hugh a Verina Matthews, am 7.30 p.m.
**Iau, 18 Tachwedd**
Cwmni Theatr Gwynedd yn cyflwyno 'Plant Gladys' gan Sera Moore Williams yn Neuadd Ysgol Plasmawr, Tyllgoed, am 7.30 p.m. Tocynnau: 01248-351708.
**Gwener, 19 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llew Brownhill' gan Islwyn Jones, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Sadwrn, 20 Tachwedd**
Cymorth Cristnogol Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Ffair Nadolig a Bore Coffi yn neuadd Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, rhwng 10 a 12 o'r gloch.
**Sadwrn, 20 Tachwedd**
Eisteddfod Gadeiriol Flynyddol Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn Neuadd Sefydliad y Gweithwyr, Oakdale yn yr Amgueddfa, am 11.30 a.m. a 5.00 p.m. Manylion pellach: 01222-573427/573500.
**Mercher, 24 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan y Parch. Dyrinos Thomas yn neuadd Eglwys Minny Street am 2.30 p.m.
**Sadwrn, 27 Tachwedd**
Tabernacl, Yr Ais: Ffair Nadolig a Choffi yn y bore o 9.30 tan 12.00.
**Mercher, 1 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: 'Cipolwg ar y Ganrif' gan Valmai Griffiths, yn festri Capel y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Gwener, 3 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: Noson o gerddoriaeth gan Mrs Eilonwy Jones, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.15 p.m.
**Sadwrn, 4 Rhagfyr**
Ffair Gaeaf Ysgol Glantaf
**Sadwrn, 4 Rhagfyr**
'Sêr yn Salem' yng Nghapel Salem, Market Road, Treganna, am 7.30 p.m. Mynediad: £5 (£1 i blant).
**Mawrth, 7 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Côr Cantorion Glan-y-nant (Arweinydd: Meidwen Davies), yng Nghapel Bethel, Maes-y-deri, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 7 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson o Garolau yn y Fro. Manylion pellach: 01222-759291.
**Mercher, 8 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Gwasanaeth Nadolig yn neuadd Eglwys Minny Street am 2.30 p.m.
**Gwener, 10 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins) yn Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Unawdydd: Eirlys Parri. Casgliad at Apêl Felindre.
**Mawrth, 14 Rhagfyr**
Cymrodorion y Barri: Noson o dan ofal Cymdeithas y Cymrodorion a Merched y Wawr, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Iau, 16 Rhagfyr**
Gwasanaeth Naw Llith a Charol Ysgol Glantaf, yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m.
**Gwener, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Oedfa Gannwyll yng Nghapel Bethel, Maes-y-deri, am 11.00 p.m.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:* Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ (Ffôn: 628754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### Annwyl Gyfeillion

Eleni, am y tro cyntaf, cyhoeddwyd catalog yn rhestru'r holl Lyfrau Llafar a recordiwyd gan y Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion. Ceir ynddo dros 1500 o deitlau ar amrywiol bynciau. Mae'n gatalog hawdd i'w ddefnyddio ac wedi ei drefnu'n dair rhan, sef awdur, testun a theitl.

Gwasanaeth rhad ac am ddim yw'r Cynllun Casetiau i'r rhai a gofrestrwyd yn ddall neu'n rhannol ddall. Pe baech yn gwybod am rywun a fyddai'n hoffi defnyddio'r gwasanaeth mae croeso i chi anfon am gopi o'r catalog ynghyd â manylion pellach am y gwasanaeth.

Yn ddiweddar, hefyd, dechreuwyd recordio llyfrau Saesneg naill ai yn ymwneud â Chymru neu gan awduron o Gymru ac mae rhestr gyflawn o'r rhain ar gael o'r cyfeiriad isod.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

**Rhian M. Evans**
Trefnydd, Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion,
1 Penlan, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1DN
(Ffôn: 01267 238225)

### Llongyfarchiadau

– i Judith Humphreys a Jerry Hunter, Treganna, ar enedigaeth Luned Mari, chwaer fach i Megan Angharad;
– i Meic Stephens, Heol Don, Yr Eglwys Newydd, ar dderbyn gradd MA er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru am ei gyfraniad i lenyddiaeth Cymru. Ymhlith ei gyhoeddiadau niferus y mae'r cyfeirlyfr anhepgor, *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*. Mae Meic hefyd yn cyfrannu colofn am lyfrau i'r *Western Mail* bob dydd Sadwrn. Er 1993 y mae'n ddarlithydd yn Adran Saesneg Prifysgol Morgannwg yn Nhrefforest, ei bentref genedigol.

### Annwyl Olygydd

A gaf i apelio at bobl sydd wedi dewis derbyn eu gwasanaeth teledu a ffôn oddi wrth *ntl cebl*, i ysgrifennu atynt i ofyn am ohebiaeth a biliau ac ati yn ddwyieithog.

Cofion gorau,

**Harri Pritchard Jones**
Yr Eglwys Newydd

**Golau Gwan yn Minny Street**

Mae eleni, 1999, yn ganmlwyddiant dau Gymro amlwg iawn: marw'r Rhyddfrydwr mawr, Tom Ellis, yn 40 oed; ac ychydig fisoedd wedyn, geni ei fab, T.I. Ellis. A gweddw "T.I.", Mrs Mari Ellis, Aberystwyth, a ddaeth atom i Gylch Llyfryddol Caerdydd, yn sgil ei chyfrol ddiweddar, *Y Golau Gwan: Llythyrau Tom Ellis A.S. at Annie Davies*, i draddodi darlith agoriadol Rhaglen Gaeaf 1999-2000, a hynny yn Festri Capel Minny Street.



Havard Gregory, Llywydd Cymrodorion Caerdydd 1999-2000 yn cael ei longyfarch gan ei ragflaenydd, Mrs Beryl Hall.
*Llun: Robin Griffith.*

Prin iawn yw dilyniant o lythyrau caru yn Gymraeg, ac mae llythyrau Tom Ellis at yr un a briododd maes o law yn garreg filltir yn y dosbarth hwn.

Gan ein bod fel Cymry yn gwybod cryn dipyn am Tom Ellis, roedd yn hyfryd cael tipyn o hanes Annie ei hun a'i 'Hatgofion', y dechreuodd eu hysgrifennu ym 1933. Ni orffennodd y gwaith; a bu hi farw ym 1942, 43 mlynedd ar ôl ei gŵr.

Mae'r llythyron, o Ionawr 1897 hyd fis Rhagfyr 1898, yn rhoi darlun manwl a gogleisiol ysgafn o agweddau ar fywyd gwleidyddol ddiwedd y ganrif ddiwethaf yn Llundain, pan oedd Tom Ellis a'i gyfaill Lloyd George yn rheoli cryn dipyn o'r llwyfan gwleidyddol. Ac roedd llawer o gynnwys llythyrau Tom Ellis yn agoriad llygad difyr ar ochr gymdeithasol y cyfnod yn nhai eu cyd-aelodau seneddol.

Ond yr hyn a erys yn arbennig yn ein cof yw'r tynerwch sy'n britho llythyrau Tom Ellis at ei gariad, na chawsant gyda'i gilydd ond deng mis o fywyd priodasol cyn i'r gŵr hwn, un o wleidyddion mwyaf allweddol ei gyfnod, farw ynghanol ei lafur Rhyddfrydol.

Mwyniant arbennig oedd yr awr yng nghwmni ei ferch-yng-nghyfraith, Mrs Mari Ellis, a oedd wedi dod bob cam o Aberystwyth y noson honno i fynd â ni yn ôl dros ganrif i'r garwriaeth dyner hon.

**Havard Gregory**

## Cymdeithas Ryngwladol y Llewod

Sefydlwyd Cymdeithas Ryngwladol y Llewod yn 1917, ac erbyn hyn mae'n un o gymdeithasau gwirfoddol mwya'r byd. Cymro Americanaidd, o'r enw Melvyn Jones, oedd y sylfaenydd. Ganwyd ei dad-cu yn Ninbych-y-pysgod. Petai Melvyn yn byw heddiw fe fyddai ar dir i chwarae rygbi dros Gymru!

Heddiw, mae 1.5 miliwn o "Lewod" yn aelodau mewn 42,000 o glybiau mewn 180 o wledydd ar draws y byd. Mae dros 900 o glybiau ym Mhrydain - 50 ohonynt yng Nghymru. Sefydlwyd clwb newydd ar ddechrau'r flwyddyn, sef clwb Abergwaun a Gwdig.

Estynnir croeso gwresog i unrhyw "Lew", sy naill ai ar ei wyliau neu yn gweithio dros dro ym Mhrydain neu mewn gwlad tramor, i "alw i mewn" a mwynhau cwmni aelodau'r Clwb Llewod lleol. Yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf, wrth dreulio gwyliau ym Mihas, Sbaen, cefais y cyfle i ymuno ag aelodau o'r clwb lleol, a hefyd cael fy ngwahodd i glybiau eraill ar y Costa-del-Sol, sef Fuengirola, La Cala, a Calahonda. Mwy nag unwaith bûm yn helpu ar stondin y clwb lleol yn y "Fferia". Braf oedd ymweld â'r Sbaenwyr - heb anghofio'r "ex pats" o wledydd tramor, y rhain, hefyd yn aelodau o'r clybiau Sbaeneg.

Y llynedd casglwyd yn agos i £5,000 tuag at achosion da gan Glwb Gogledd Caerdydd (y clwb rwy'n aelod ohono). Mae POB CEINIOG yn cael ei gwario ar achosion da lleol neu dramor, e.e. ar unigolion methedig; y digartref; prynu cyfrifiaduron i Uned y Byddar mewn ysgol leol; partïon Nadolig ac ambell wibdaith i'r henoed; cludo plant dan anfantais i glwb adloniant yn yr Eglwys Newydd; trefnu stondin yn Mharc y Rhath; trefnu cyngherddau; cynnal gwasanaeth yn yr Eglwys Gadeirol a.y.y.b. Hefyd ceir prosiect "Gwersyll Llygaid" ar draws y byd - yn enwedig yn yr India. Yma mae meddygon lleol yn perfformio llawdriniaeth cataract ac ati.

Dyna fraslun o hanes y "Llewod". Ar hyn o bryd mae llond dwrn ohonom yn siarad Cymraeg yn y clwb. Os oes diddordeb gennych, trowch i mewn i un o'n cyfarfodydd am sgwrs - neu ffoniwch fi, Selwyn Jones, ar 01222-751505. Rydym yn cyfarfod ar yr ail a'r bedwaredd nos Iau yn y mis yng Ngwesty'r Pendragon, Excalibur Drive, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*).

**Selwyn Jones**

**Cyfieithydd yn Gymrawd**

Yn ddiweddar penodwyd Angharad Price yn Gymrawd Ymchwil yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae'r penodiad am dair blynedd ac yn rhan o gynllun Cymrodoriaethau Prifysgol Caerdydd.

Ar ôl cwblhau ei doethuriaeth ar ryddiaith Gymraeg gyfoes yng Ngholeg Iesu, Rhydychen flwyddyn yn ôl, treuliodd Angharad flwyddyn yn darlithio yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Abertawe.

Dros y tair blynedd nesaf bydd yn ymchwilio i effaith cyfieithu ar ddatblygiad rhyddiaith Gymraeg, gan ganolbwyntio ar gyfnod y Dadeni, ac mae'n fwriad ganddi gyhoeddi ffrwyth yr ymchwil mewn llyfr.

Yn gyfieithydd ei hun - cydgyfieithodd gasgliad o storïau byrion o'r Gymraeg i'r Almaeneg yn *Tee mit der Königin* (1995) - mae Angharad hefyd yn gyd-olygydd 'Cyfwe', sef safle ar y We Fyd-Eang ac arno gyfieithiadau o lenyddiaeth Gymraeg gyfoes i nifer o ieithoedd Ewrop a'r tu hwnt (gweler http://www.cyfwe.org/).

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## SEMINARAU BETHEL PENARTH

Estynnir croeso i bawb i gyfres o gyfarfodydd pan fydd siaradwyr yn trafod agweddau o bwys i Gristnogaeth heddiw. Dyma gyfle i rannu profiad, ysgogi meddwl, goleuo deall a chynnal ffydd. Menter yw hon a threfnir rhagor o seminarau os ceir ymateb calonogol. Bydd pob cyfarfod yn dechrau am 7 o'r gloch.

*Nos Iau, 22 Tachwedd*
Parchg Eifion Powell 'Hanes yr Eglwys Fore'
*Nos Fercher, 8 Rhagfyr*
Parchg Cynwil Williams 'Arwyddocâd y Mileniwm'

Cyswllt: Neville Evans 01222 843806

## EGLWYS Y CRWYS

Bu calendr y Crwys yn gyfforddus lawn yn ystod mis Hydref. Dechreuwyd ar Sul cyntaf yr mis gyda gwasanaeth arbennig i ddathlu a diolch am gystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd. Cyfrannwyd gan Mr Ian Gwyn Hughes a Mr Ion Thomas, y ddau yn gyfranwyr cyson i raglenni chwaraeon BBC Cymru. Fe'u cynorthwywyd gan bedwar o aelodau ieuanc yr ysgol Sul - Ffion Edwards, Lois Richards, Bethan Evans a Selyf Shapey. Mr Tom Ellis James oedd wrth yr organ ac fe bregethwyd gan y Parchg Wyn Vittle.

Dydd Sul, 10 Hydref, cynhaliwyd cyngerdd o dan nawdd y Gymdeithas. Côr Godre'r Garth a wahoddwyd i ddiddanu'r gynulleidfa y tro hwn a chawsom ganddynt brynhawn cofiadwy o dan arweiniad Wil Morris-Jones; Margaret Roberts oedd wrth yr organ/piano a'r unawdydd oedd Siriol Wilde.

Nos Fercher, nos Iau a nos Wener, 20-22 Hydref llwyfannwyd tair drama fer yn dwyn y teitl gogleisiol 'Sgen Ti Docyn?' Nosweithiau oedd y rhain i gael hwyl a mwynhad yng nghysgod y gystadleuaeth am Gwpan Rygbi'r Byd.

Bu plant yr Ysgol Sul hefyd yn brysur ym mis Hydref. Ddydd Sul y 10fed cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch blynyddol. Roedd y trefniadau yng ngofal Mrs Siân Griffiths ac fe anerchwyd gan y Parchg Haydn Thomas. Dros gyfnod y Sul dilynol aeth nifer dda o deuluoedd ifainc yr Eglwys i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Roedd y trefniadau yma yng ngofal Mrs Bethan Vaughan Jones.

Ddydd Llun, 25 Hydref, aeth trip blynyddol y Gymdeithas Ddrama i ddwy ardal tra gwahanol yng Ngogledd Lloegr. Treuliwyd tair noson ar lannau Llyn Windermere a dwy noson yn ardal Lerpwl.

**Garwyn Davies**

## MINNY STREET, CAERDYDD

Fore Sul, 3 Hydref, mewn gwasanaeth plant arbennig i ddathlu dyfodiad Cwpan Rygbi'r Byd i Gaerdydd, bedyddiwyd **Nia Mair**, merch Rhian a Neil Fenn (Pen-y-lan). Bythefnos yn ddiwedddarach, cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch y Plant gyda'u rhoddion yn cael eu rhannu rhwng cartref Wallich Clifford a'r *Big Issue*.

**Llongyfarchiadau** a phob dymuniad da i **Sioned Guy** ar ei phriodas â **Gordon Harold** yn Minny Street ar Sadwrn, 16 Hydref.

**Recordiwyd** gwasanaeth arbennig i ddathlu gwaith y Cenhedloedd Unedig ar fore Sul, 10 Hydref - gwasanaeth a ddarlledwyd ar Radio Cymru ar 24 Hydref. Bu nifer o blant, ieuenctid ac aelodau'r eglwys yn cymryd rhan gyda'r Parchg Eifion Powell yn traddodi'r bregeth.

Mae'r **Gymdeithas** wedi bod yn ddiwyd iawn dros y misoedd diwethaf gan drefnu ymweliadau â'r Theatr Newydd i weld *Jesus Christ Superstar* ac Oriel Tŷ Turner i weld arddangosfa o waith Cefyn Burgess ar Gapeli Cymru. Aethpwyd hefyd ar daith i Fro Morgannwg dan arweiniad Havard a Rhiannon Gregory. Yna, nos Sul, 17 Hydref, trefnwyd gwasanaeth gan aelodau'r pwyllgor gyda'r Dr Elin Jones o'r Gymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol yn annerch.

## EGLWYS EBENESER, CAERDYDD

**Cwpan Rygbi'r Byd**: Yn sgil cystadleuaeth Cwpan y Byd, cynhaliwyd dyddiau agored yn yr eglwys bob diwrnod pan fu gêm yng Nghaerdydd. Roedd yr achlysuron yn llwyddiannus, gyda nifer o bobl o wahanol wledydd wedi taro i mewn i'n gweld a chael croeso cynnes yn eu hiaith eu hunain. Roedd taflen yn egluro'n cenadwri ar gael mewn nifer helaeth o wahanol ieithoedd.

**Cyrddau Pregethu:** Ar 9-10 Hydref croesawyd y Parchg John Watkin, Cyffordd Llandudno atom ar gyfer ein cyfarfodydd pregethu eleni, gan ddechrau â chyfarfod ar y nos Sadwrn a dau gyfarfod yn dilyn ar y Sul. Ar y nos Sul ymunodd eglwysi Salem, Treganna, Minny Street a'r Crwys â ni.

**Bedydd:** Yn Eglwys Ebeneser fore Sul, 24 Hydref 1999, bedyddiwyd Beca Glain, merch Bethan a John Hayes a chwaer fach Cai. Ein dymuniadau gwresog i'r holl deulu.

**Operation Christmaschild:** Mae'r Ysgol Sul wedi bod wrthi'n ddiwyd yn cefnogi'r ymgyrch Operation Christmaschild trwy lenwi bocsys esgidiau ag anrhegion er mwyn eu rhoi i blant anghenus ar gyfer y Nadolig.

## Cymdeithas y Cymod

Dathlu bywyd a chyfraniad

**George M.Ll. Davies (1880-1949)**

yn y Deml Heddwch, Caerdydd

**Dydd Llun, 6 Rhagfyr, 1999**

| | |
|---|---|
| **10.00 am** | Cynhadledd Dosbarth 6 a chyflwyniad o *CONSHI* gan Emyr Edwards |
| **12.30 pm** | Plannu Coeden Er Cof |
| **2.00 pm** | Lansio Degawd Heddwch ar ran y C.U. |
| **7.00 pm** | Cyflwyniad llafar gan ALMA ROBERTS A CHWMNI WAENDDEWI |

***Croeso cynnes i bawb!***

## *Cyfarfod Dathlu*

**Pen-blwydd yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd**

yn 20 oed

**13 Tachwedd 1999 am 2.00 y prynhawn**

yn adeilad yr eglwys yn Stryd Rhymni

Pregethwr: Meirion Thomas, Casnewydd

Te i ddilyn



Rhai o Gymry Cymraeg 'brodorol' Caerdydd, y rhan fwyaf ohonynt ymhlith disgyblion cyntaf ysgol gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd, yn Ysgol Gyfun Glantaf i ddathlu diwedd Taith y Fflam, 9 Gorffennaf 1999.

*O'r chwith:* Gwilym Roberts, Alwyn Evans, Siân Thomas, Eryl Lane, Ethni Jones, Delyth Davies, Rhodri Jones, Teleri Jarman, Rhodri Morgan, Iwan Humphreys, Ann Williams ac Alun Guy.

*Llun: Islwyn Jenkins*

**AR DAF YR IAITH A DYFODD**

# Taith y Fflam

Fel rhan o ddathliadau hanner canmlwyddiant addysg cyfrwng Gymraeg bu seremoni cychwyn Taith y Fflam o gwmpas ysgolion Cymraeg Caerdydd ar 9 Gorffennaf yn adeilad Ysgol Gynradd Parc Ninian, sef safle Ysgol Gymraeg gyntaf Caerdydd. Gollyngwyd balwnau gan y disgyblion a chafwyd cân ganddynt hwy a phlant Ysgol Feithrin "Yr Hen Gapel" Adamsdown. Yna cludwyd y fflam gan nifer o redwyr o blith disgyblion Ysgol Plasmawr a nifer o oedolion, gan gynnwys Alun Guy a fu'n ddisgybl yn yr Ysgol Gymraeg Fore Sadwrn yn Nhŷ'r Cymry, Heol Gordon ac Eryl a Delyth Davies, cyn-ddisgyblion yr ysgol Gymraeg gyntaf.

Cyrhaeddwyd Ysgol Gymraeg Pwll-coch a chafwyd croeso hyfryd gan y plant cyn mynd i Ysgol Gymraeg Treganna a chael yr un croeso brwd yno. Wedyn, ymlaen i Ysgol Coed-y-gof, Pentre-baen i gael croeso gan yr holl ddisgyblion ar y cae yno cyn gollwng ugeiniau o falwnau i'r awyr. Ffarwelio wedyn a rhedeg i Ysgol Plasmawr i dderbyn croeso llond neuadd o blant.

Wedi gorffwyso ychydig aed ymlaen i Ysgol Pen-cae, Llandaf, sef safle hen Ysgol Bryntaf. Yno cafwyd atgofion am yr ysgol gan ddau gyn-ddisgybl sef Elspeth Hughes (Hopwood gynt) ac Alwyn Evans, Gwenfô. Ymlaen wedyn i Ysgol Glantaf i gyngerdd yn yr awyr agored ym mhresenoldeb nifer o arloeswyr addysg Gymraeg yng Nghaerdydd, Illtud Lewis ar ran RHAG, Rhodri Morgan a'i wraig, Julie Morgan, a disgyblion Glantaf a Phlasmawr a phlant Ysgol Feithrin yr Eglwys Newydd.

Gweledigaeth Ethni Jones (Daniel gynt) oedd y syniad o drefnu Taith y Fflam, gan ddwyn ysgolion Cymraeg gweddill Cymru i mewn i'r syniad. Cafwyd diwrnod i'w gofio yng Nghaerdydd ar ddiwrnod hynod garedig o ran y tywydd.

**Gwilym Roberts**
(un o'r rhedwyr)

**Annwyl Olygydd**

Ar ran Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf ac Ysgol Gymraeg Caerdydd, a gaf i ddiolch i bawb a fynychodd y dathliadau hannercanmlwyddiant ar benwythnos 4-5 Medi, ac yn arbennig i'r rhai y tu allan i'r pwyllgor a gyfrannodd yn sylweddol at lwyddiant y digwyddiadau.

Nid wyf am enwi yr un unigolyn yn benodol, ond bu croeso a threfniadau Ysgol Pen-cae ar gyfer dadorchuddio'r murlun yn hynod o gynnes ac effeithiol, roedd cefnogaeth holl ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd wrth gyfrannu at gynhyrchu'r murlun yn frwdfrydig a chyson, a bu Pioneer Arts yn arbennig o dda wrth weithio gyda'r ysgolion i gwblhau'r murlun. Os nad oeddech yno brynhawn Sadwrn y dadorchuddio, piciwch draw i Ysgol Pen-cae i'w weld - mae'n werth y siwrne!

Diolch hefyd i Adran Addysg Dinas Caerdydd am eu cefnogaeth barod i'r dathliadau; heb gyfraniad ariannol anrhydeddus ganddynt, a chan yr ysgolion cynradd eu hunain, ni allem fod wedi denu'r grant sylweddol gan Fwrdd Loteri Cyngor y Celfyddydau a ganiataodd i ni gyflawni'r gwaith.

Diolch hefyd i'r rhai a gyfrannodd i wasanaeth hynod iawn yn Eglwys y Tabernacl ar y bore Sul, sef union ben-blwydd dathlu'r 50 mlynedd.

Er gwybodaeth i'ch darllenwyr, roedd dros 120 o gyn-ddisgyblion ymhlith y 270 a fynychodd y cinio ar y nos Sadwrn yn Neuadd y Ddinas. O blith y rheini roedd 30 o'r 50 disgybl cyntaf yn yr ysgol, gan gynnwys rhai a ddaeth o berfeddion Lloegr, a hyd yn oed o Sbaen. Roedd yno hefyd dros 30 o hen athrawon Ysgol Bryntaf.

Os oes unrhyw un a gollodd y dathliadau, neu sydd am gofnod gwerth chweil o'r dyddiau cynnar, gellwch gael copi o Lyfryn y Dathlu am £3 (ynghyd â £1 os oes angen postio) gan Iolo Walters, 29 Heol y Bryn, Rhiwbina, Caerdydd CF4 6HX.

Yn olaf a gaf i ddiolch i'm cyd-aelodau o'r pwyllgor a lafuriodd mor galed i geisio sicrhau trefniadau teilwng ar gyfer achlysur mor hanesyddol. Rwy'n falch ohonoch chi.

Yn gywir,
**Alwyn Evans**
*Llywydd*

# YSGOL PLASMAWR

## Llangrannog

Unwaith eto eleni, cafodd disgyblion Blwyddyn 7 gyfle i dreulio wythnos yng Ngwersyll yr Urdd er mwyn dod i adnabod ei gilydd a mwynhau 'r holl weithgareddau sydd yno. Dyma adroddiad gan **Lowri Walton** o'r wythnos:

"Roedd yr wythnos yn un llawn hwyl. Fe wnaethom ni gymryd rhan mewn llu o weithgareddau fel beicio, sgïo, gwibgartio, nofio, sglefrolio a marchogaeth. Yn ystod y nosweithiau roedd yna ddisgo, cwis, dawnsio gwerin a llawer o ganu! Fe ges i gyfle i ddod i adnabod llawer o bobl yn well ac ar ddiwedd yr wythnos roedd pawb wedi blino'n lân ond wedi mwynhau ma's draw. Yn bendant, cefais wythnos yn llawn hwyl a sbri a dwi'n methu aros tan y tro nesaf!"

## Gwobr Dug Caeredin

Yn ystod ambell benwythnos gwlyb yn ystod mis Medi a mis Hydref treuliodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 10 eu hamser yn cyflawni gwobr efydd Dug Caeredin. Cyflawnodd y disgyblion y wobr yn Rhosili ac ar hyd Llwybr Taf wrth iddynt wersylla, cerdded a chyfeiliorni. Er gwaetha'r tywydd gwael roedd pob un ohonynt yn benderfynol o lwyddo!

Ar 5 Hydref, lansiwyd Polisi Iaith Gymraeg Gwobr Dug Caeredin yn y Cynulliad ac fe wahoddwyd disgyblion Plasmawr yno i dderbyn eu tystysgrifau. Yno cafodd y disgyblion gyfle i siarad am eu profiadau wrth gyflawni'r wobr a'r sgiliau a fagwyd wrth wneud. Yn ystod y blynyddoedd nesaf mae'r disgyblion yn gobeithio cyflawni'r wobr arian ac aur.

## Ein Sioe Gerdd Gyntaf

Cyfnod byrlymus iawn yn yr ysgol fydd yr hanner tymor yma. Eisoes mae trefniadau ar gyfer ein sioe gerdd gyntaf ar y gweill ac mae'r disgyblion a'r athrawon yn ysu am gychwyn ar y gwaith o ddifri. Gareth F. Williams sy'n gyfrifol am y sgript a chyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Caryl Parry Jones. Rydym fel ysgol yn ddyledus iawn iddynt am roi o'u hamser. 'Yr Academi' yw enw'r sioe ac ynddi cawn ein cludo i noson ola'r mileniwm a genedigaeth dau faban cynta'r mileniwm newydd. Gwelwn ymdrechion S4C digidol i greu rhaglen ddogfen safonol o'r digwyddiad hanesyddol hwn, yn ogystal â Rich Roderick, arweinydd y Cynulliad, yn cynllwynio i greu academi Gymreig ddosbarth canol.

Mae'r sioe yn cynnwys 12 o ganeuon gwreiddiol ac yn rhoi cyfle i dros 70 o ddisgyblion ddangos eu doniau. Law yn llaw â'r perfformwyr mae criw o athrawon wrthi'n ddyfal yn cynllunio set a gwisgoedd ar gyfer y perfformiadau. Perfformir y cynhyrchiad yn neuadd yr ysgol rhwng 13 a 15 Rhagfyr. Tan hynny bydd bywyd yn gymysgwch o gyffro, ofn, chwys - a mwynhad, gobeithio!

## CHWARAEON PLASMAWR

Mae nifer fawr o weithgareddau all-gyrsiol Addysg Gorfforol wedi digwydd dros yr hanner tymor cyntaf eleni gyda phob blwyddyn yn chwarae gemau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi.

### Pêl-droed

Ar y caeau pêl-droed, bechgyn ifanca'r ysgol sydd wedi profi'r llwyddiant mwyaf gyda Bl. 7 yn curo tîm cryf Ysgol Bechgyn y Barri 4-0 a Bl. 8 yn colli i Fitzalan ond yn curo Cathays 3-2. Er y gwelliant amlwg ers y llynedd mae bechgyn Bl. 9 a 10 yn dal i aros am eu llwyddiant cyntaf eleni.

### Pêl-rwyd

Ar y cyrtiau pêl-rwyd mae merched Bl. 9 wedi ennill yn erbyn yr ysgolion isod :

| | |
|---|---|
| Plasmawr v Llanilltud | 14 - 3 |
| Plasmawr v Esgob Llandaf | 9 - 7 |
| Plasmawr v Glantaf | 10 - 1 |

Blwyddyn 10 sydd â'r tîm mwyaf llwyddiannus yn yr ysgol; maent wedi cael tymor ardderchog hyd yn hyn. Gobeithiwn barhau'r llwyddiant yn y Twrnament fydd yn cael ei gynnal ym mis Ionawr.

Mae merched Bl. 8 wedi chwarae nifer o gemau y tymor yma. Enillwyd gêm yn erbyn Glynderw 10- 1, ond rydym wedi bod yn anffodus i golli'r gweddill. Er hyn mae yna ymdrech a brwdfrydedd yn amlwg ymysg y merched.

Mae merched Bl. 7 wedi bod yn ymarfer llawer er iddynt golli'r gemau cyntaf yn erbyn Glantaf, ond ar ôl mwy o ymarfer gobeithiwn ennill ar ôl hanner tymor.

### Rygbi

Ar y caeau rygbi, bechgyn ifanca'r ysgol ac yn enwedig tîm addawol iawn Bl. 7 sydd wedi profi'r llwyddiant mwyaf drwy ennill 4 allan o 5 gêm gan guro timau A a B Glantaf. Mae bechgyn Bl. 8 a 9 wedi cael dechrau cymysg i'r tymor gyda'r ddau dîm yn ennill 2 allan o 4 gêm a'r ddau yn cael buddugoliaeth dda yn erbyn Radur. Er y brwydro caled mae Bl. 10 yn aros am eu buddugoliaeth gyntaf eleni. Gyda mwy o ymarfer, llwyddiant a ddaw!



Rhai o'r rhedwyr a fu'n cludo Fflam Addysg Gymraeg o gwmpas ysgolion Cymraeg Caerdydd ar 9 Gorffennaf.

# YSGOL GLANTAF

**Mis yn yr Almaen**

Dros yr haf bûm i'n ddigon ffodus i ennill cystadleuaeth Llysgenhadaeth yr Almaen i deithio o amgylch yr Almaen gyda PAD (*Padagogishe Austausch Dienst*: Taith Gyfnewid Addysgiadol). Roedd yn gyfle i bobl ifainc, o wledydd ar draws y byd, wella'u Almaeneg a dysgu rhywfaint am hanes yr Almaen. Mae'n gynllun sydd mewn bodolaeth ers ar ôl yr Ail Ryfel Byd er mwyn dangos i ieuenctid y byd nad pobl ofnadwy yw'r Almaenwyr. Roeddwn i'n llawn ofn wrth ddechrau ar y daith, yn poeni'n fawr na fyddwn yn mwynhau o gwbl, ond pan ddaeth hi'n amser dod adref doeddwn i ddim eisiau gadael.

Roedd y daith wedi'i threfnu'n ardderchog. Roedd y pum diwrnod cyntaf yn Bonn ar lan afon Rhein yn wych. Cafwyd cyfle i ddod i adnabod ein grwpiau, a hefyd i ddod i adnabod Bonn. Dyma'r fan lle'r oedd senedd-dy Gorllewin yr Almaen tan fis Awst eleni, a dyma hefyd fan geni yr enwog Beethoven. Ar y noson olaf cawsom Noson Ryngwladol. Dychmygwch yr amrywiaeth: pobl o Togo, Cameroon, Madagascar; o Tseina a Japan; o holl wledydd newydd yr hen Undeb Sofietaidd; Wcrain, Kasachstan a Rwsia wrth gwrs; a'r Gwyddelod, ac yna ni i gyd o'r Alban, Cymru a Lloegr, a phawb yn cyflwyno'u gwledydd mewn Almaeneg! Ces i bawb i fwyta Bara Brith Cymreig, ac i ddawnsio dawns Llangrannog - hyd yn oed y Saeson!

Am bythefnos wedyn, aeth y grwpiau gwahanol i aros â theuluoedd. Aeth fy ngrŵp i i'r Rühr, i Duisburg. Roedd hi'n wych dod i adnabod Almaenwyr go iawn a byw bywyd bob dydd gyda nhw. Uchafbwyntiau'r pythefnos i mi oedd *Chirmes*, neu Ffair, gyda thân gwyllt dros afon Rühr, a gweld ffilmiau fel *Notting Hill* yn Almaeneg! Roeddwn i'n flin iawn i adael Duisburg, ond roedd mynd i Ferlin yn antur arall.

Roedd Berlin yn wych. Roedd hanes yn llenwi'r lle. Wrth weld y *Brandenburger Tor*, stryd hir *Unter den Linden*, y *Reichstag* newydd, a'r rhan o'r wal sy'n dal i sefyll. Ces i wefr. Doeddwn i wir ddim yn gallu credu fy mod i wedi cyrraedd y ddinas ryfeddol hon. Sylweddolais i mor ddewr roedd yr Almaenwyr a ddihangodd o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn amgueddfa *Checkpoint Charlie*, a'r brwdfrydedd mawr wrth ailadeiladu'r ddinas yn *Potsdamer Platz*. Rwy'n edrych ymlaen at fynd nôl i weld y ddinas ranedig yn un ddinas hardd eto mewn deng mlynedd.

Bafaria oedd diwedd y daith, a München. Pum diwrnod byr ar ôl gyda ffrindiau agos erbyn hyn, i fwynhau bod ym mhrifddinas cwrw'r byd. Rhaid dweud fod y noson yn y *Biergarten* Almaenig yn noson arbennig! Roedd gweld yr Affricaniaid yn sglefrio iâ hefyd yn brofiad - doedd y mwyafrif ohonyn nhw erioed wedi gweld iâ o'r blaen. Ond, pinacl München i mi oedd stiwdios ffilm Bafaria, a gweld lle y cafodd y ffilm *Asterix* ddiweddaraf ei ffilmio.

Roedd ffarwelio yn erchyll, yn enwedig wrth weld nid dim ond y merched ond y bechgyn hefyd yn beichio crio wrth orfod gadael pawb. Rwy'n edrych ymlaen yn barod at aduniad *Gruppe* 26 yn Duisburg yn y flwyddyn 2009!

**Rhiannon Michael**



Rhiannon a'i ffrindiau ger y *Brandenburger Tor* ym Merlin

## Wythnos yn Llangrannog

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf aeth y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 7 i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog, am bum diwrnod o weithgareddau a hwyl mewn awyrgylch gwbl Gymraeg. Roedd y cwrs yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddod i adnabod yr athrawon a swyddogion y chweched dosbarth y tu allan i'r ysgol.

Bu'r wythnos yn llwyddiant ysgubol i bawb a fynychodd y cwrs. Mwynhawyd y gweithgareddau gyda'r dydd megis sgïo, beicio, nofio a llafnrolio; ac oherwydd natur y gweithgareddau, gorfodwyd y plant i gydweithio fel tîm ac felly gwneud ffrindiau newydd.

Fodd bynnag, yr adloniant gyda'r nos oedd uchafbwynt pob diwrnod. Y noson fwyaf doniol oedd 'Noson y Swogs', lle y gwelwyd nifer o'r staff yn canu 'karaoke', dawnsio 'Steps' a cheisio canu'r anthem genedlaethol tra'n garglo dŵr! Ond sicrhaodd yr athrawon fod pob un o'r swogs yn cael eu talu'n nôl yn ystod Noson Lawen y staff ar y nos Iau. Gwelwyd nifer o swogs yn cael eu trochi mewn dŵr, tra bod eraill yn cystadlu yn y ras bwyta bisgedi.

Gwnaethpwyd ymdrech arbennig gan y staff a'r swogs i sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hunain yn Llangrannog. Ond nid yn unig y disgyblion a elwodd ar hyn. Roedd hefyd yn brofiad gwerthfawr a chofiadwy i bob un o'r swyddogion. Aeddfedodd pob un ohonom dan bwysau'r ddyletswydd oedd arnom i sicrhau mwynhad a diogelwch y plant, ac i ddangos esiampl dda iddynt o ran ymddygiad. Sefydlwyd perthynas glos, nid yn unig rhwng aelodau'r chweched a Blwyddyn 7, ond hefyd rhwng y chweched a'r athrawon. Mae'n dda gennyf ddweud bod y berthynas yma wedi parhau ar ôl i ni ddychwelyd i Lantaf. Gobeithiaf y bydd swyddogion y dyfodol yn cael yr un pleser ag a gawsom ni.

**Jenny Heap**

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Pêl-droed



**Tro ar fyd i Gaerdydd**

Mae'r pryderon yn dechrau cynyddu o gylch Parc Ninian a'r tîm wedi colli gartre am y tro cyntaf ers blwyddyn. Mae'n wir mai Stoke oedd y gwrthwynebwyr - y tîm gorau o bell ffordd a welwyd yng Nghaerdydd y tymor hwn.

Colli, ie; ond am gyfnodau yn y gêm, yn enwedig yn yr ail hanner, roedd Caerdydd cystal os nad yn well na Stoke. A dyma'r hanes bron ym mhob gêm gartre y tymor hwn o ran ei chwarae - Caerdydd yn rhagori ar eu gwrthwynebwyr.

Paham felly mae'r tîm yn anghyfforddus o agos i odre'r adran? Y rheswm syml yw mai dwy fuddugoliaeth a gafwyd mewn tair gêm ar ddeg a dau bwynt yn unig a enillwyd yn y pum gêm ddiwethaf. O ganlyniad bu gostwng sylweddol yn y dorf, o ddeng mil i lawr i brin chwe mil. Ydi, mae'r ysgrifen ar y pared i Frank Burrows, y rheolwr, a'i gyfarwyddwyr.

O ran chwarae cyffredinol Caerdydd, does dim lle i achwyn. Maen nhw'n gytbwys a phwrpasol a chreadigol yng nghanol y cae; ond o gylch, ac yn y cwrt cosbi, mae'r chwarae yn gwbl aneffeithiol. Does gan y blaenwyr presennol mo'r cyflymdra na'r cyfrwystra i fylchu amddiffynfeydd disgybledig yr ail adran. Daw 80% o'r goliau o groesiadau o'r esgyll. Mae digon o beli, felly, ym mhob gêm bron; ond ofer y croesiad oni fedrwch blhau y symudiad o flaen y gôl.

Y prif angen yw blaenwr cyflym sy'n sgoriwr naturiol a mwy o gymorth o ganol y cae yn y cwrt cosbi - a hynny'n ddiymdroi, neu fe fydd y clwb ar waelod yr ail adran cyn y Nadolig.

Mae pryder oherwydd yr amddiffyn hefyd. Mae gormod o newidiadau, ac mae'r golwr (fu gyda'r gorau yn y drydedd adran y llynedd) yn hynod o ansicr yn ei gwrt chwe llath.

Dim ond un cysur sydd ar hyn o bryd. O'r timau a ddyrchafodd y llynedd o'r drydedd adran i'r ail, dim ond Brentford sy'n dal eu tir, ac mae ei gadeirydd, sef Ron Noades, yn filiwnydd ac wedi gwario'n helaeth ar ei dîm. Ie, diwedd y gân yw'r geiniog bob tro!

**Howard Spriggs**

## Y Bêl Hirgron



Y pedwerydd ar hugain o fis Hydref yw hi - beth felly y gallaf ei ddweud am y gamp hon a minnau â'm pen yn fy mhlu yr un fath â phawb arall yn y wlad. Dyna sut y gorffennwyd fy llith yn rhifyn diwethaf y papur hwn: "Yn bendant, llachar yw'r dyfodol - ond - rhaid i'r wlad gael cryn dipyn o lwyddiant yng Ngwpan y Byd i sicrhau safon y dyfodol. *Ac fe gaiff.*" Naddo, ni chafodd ddim o'r fath beth.

Fe'n gwefreiddiwyd yn y seremoni agoriadol cyn yr ornest gyntaf yn erbyn Ariannin - Bryn Terfel, Max Boyce a'r Corau Meibion - ond ni'n gwefreiddiwyd yn ystod yr ornest. Sgorio dau gais i ddim ac ennill o bum pwynt; ond onid oedd y tîm wedi eu cynhyrfu'n ormodol gan yr achlysur i chwarae cystal ag a allent? Oeddynt, yn ôl pawb, gan gynnwys Graham Henry; felly gwelem well safon o'r hanner yn yr ornest nesaf yn erbyn Siapan. At ei gilydd, yr oedd y chwarae'n ein bodloni; ond nid cyn y seibiant pan oedd hi'n 26-15. Sgoriwyd ceisiadau rhagorol yn yr hanner olaf, ac erbyn y diwedd yr oedd hi'n 64-15 (naw cais i ddau). Cawsom ein camarwain yn llwyr gan y canlyniad hwnnw, gan inni i gyd broffwydo buddugoliaeth fawr dros Samoa, ac yna ei cholli o bum cais i dri (38-31). Diffyg tactegol enbyd oedd yn gyfrifol am hynny, ac fe ddylwn i fod wedi sylweddoli erbyn chwarter awr i bump y prynhawn hwnnw nad oedd gobaith yn erbyn Awstralia yn rownd yr wyth olaf. Ond rywsut neu'i gilydd, daliwn i gredu y gallem ennill honno a chyrraedd y Rownd Gynderfynol; er gwaethaf barn pawb arall, proffwydais fore'r ornest mai Cymru a'i henillai o 23 phwynt i 15. Gwae fi, onid e?

Wedi gweld Awstralia'n curo Iwerddon yn Nulyn, ni chredwn eu bod cystal â'r Crysau Duon, er iddynt lwyr reoli hanner ola'r ornest honno gan sgorio dau gais da i ddim. Tim Horan a Ben Tune oedd eu sgorwyr, ac yn erbyn Cymru olwyr Awstralia a reolai'r prynhawn. Ni allem gystadlu'n eu herbyn, ac fe ddangosodd Stephen Larkham, eu maswr tal, heglog, sut y dylai maswr rhyngwladol chwarae.

Pe byddai gornest arall gan Gymru, pwy a chwaraeai'n faswr a mewnwr, tybed? Yn sicr ni chyfrannodd Robert Howley na Neil Jenkins fawr ddim yn eu gornest olaf yng Nghwpan Byd 1999. Trist oedd sylweddoli unwaith yn rhagor faint oedd y bwlch rhyngom a'r tair gwlad fawr. Nid ar y dyfarnwr, Colin Hawke, yr oedd y bai am inni gael ein trechu o dri chais i ddim, er na welais i erioed yn fy mywyd safon dyfarnu gynddrwg ar faes rhyngwladol. Mawr obeithio nad Cymro oedd ei daid ef.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## Ysgol Heol Albany



Dyma ni, y deg disgybl cyntaf yn y nawfed ysgol Gymraeg yn y ddinas. Fel y gwelwch, rydym yn deulu bach hapus iawn, wedi ymsefydlu dros dro yn Heol Albany. Rydym yn blant lwcus iawn, yn mwynhau dysgu trwy chwarae strwythredig, mewn dosbarth yn llawn o offer newydd sbon.

Miss Thomas yw'n hathrawes, ac mae hi wedi bod yn brysur iawn dros wyliau'r haf yn paratoi cwricwlwm difyr ac eang i'n helpu ni i ddysgu darllen, ysgrifennu, rhifo a llawer o bethau eraill. Mae Mrs Jones yn dweud ein bod yn blant clyfar iawn, ac mae hithau yn brysur yn paratoi'r ffordd i ni gael symud i'n safle parhaol.

Does gennym ddim enw swyddogol i'r ysgol eto, ond mae gennym wisg ddeniadol dros ben. Chwiliwch amdanom yn Eisteddfod yr Urdd; y ni fydd yn gwisgo crysau chwys emrallt a chrysau polo glas tywyll.

Rydym yn hoffi cael ymwelwyr yn yr ysgol; felly, galwch heibio i'n gweld os byddwch yn digwydd bod yn yr ardal. Neu, os dymunwch, ffoniwch yr ysgol i archebu tocyn ar gyfer ein cyngerdd Nadolig. Mi fydd croeso gwresog i chi ymuno â ni i ddathlu diwedd ein tymor cyntaf yn yr ysgol. Rhif ffôn yr ysgol yw 492423.

Hwyl i chi am y tro, oddi wrth Jade, Jessica, Carrarah, Archie, Ella, Nathan, Kate, Dylan, Lydia, Lucy, Miss Thomas a Mrs Jones.

---

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

*Efallai bod rhai ohonoch chi'n cofio Gareth Kiff, a oedd yn sgrifennu colofn CYD yn* Y Dinesydd. *Wel, mae Gareth bellach yn gweithio i Fenter Caerdydd. Beth yw Menter Caerdydd? Gofynnais i Gareth sgrifennu gair neu ddau...*

**Cwestiwn: Beth yw Menter Iaith?**

**Ateb: Corff sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob maes.**

O'r diwedd mae Menter Iaith yng Nghaerdydd ac yn ddiweddar ces i fy mhenodi yn Swyddog Datblygu cyntaf Menter Caerdydd. Byddwn ni'n cydweithio â mudiadau Cymraeg eraill a rhedeg prosiectau ein hunain i sicrhau bod gan bawb y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae llawer o waith i'w wneud ym meysydd hamdden, adloniant a busnes. Wrth gwrs, mae llawer o weithgareddau yn y Gymraeg yng Nghaerdydd yn barod ond yn aml dydy pobl ddim yn gwybod amdanynt. Felly byddwn ni'n gallu dweud wrth bobl beth sy'n mynd ymlaen yn ogystal â darparu pethau newydd i Gymry Cymraeg a'r rhai ohonoch sy'n dysgu'r iaith. Hefyd byddaf yn trefnu cyrsiau Cymraeg Cyngor Sir Caerdydd, felly os hoffech dderbyn gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg, Menter Caerdydd neu am beth sy'n mynd ymlaen yn y Gymraeg yng Nghaerdydd, ffoniwch fi ar 679558.

**Gareth Kiff**

**Geirfa**

Menter Iaith - Language Initiative
hyrwyddo - to promote
Swyddog Datblygu - Development Officer
cydweithio - to co-operate
llawer o weithgareddau - lots of activities
yn aml - often
yn ogystal â - as well as

### Allech chi fod yn gyfaill?

Os ydych yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu gweld eich hunan fel: **Cyfaill Llythyr / E-byti / Ffrind ffôn**

**Cysylltwch â CYD nawr!**

Mae'n gwneud byd o wahaniaeth i ddysgwyr os ydyn nhw'n gallu cyfathrebu â Chymry Cymraeg trwy lythyr, ffôn neu e-bost. Os hoffech chi helpu, anfonwch fanylion am eich

- enw
- cyfeiriad
- rhif ffôn (os yn berthnasol)
- cyfeiriad e-bost (os yn berthnasol)
- oedran (yn fras)
- a diddordebau

**CYD, 10 Maes Lowri,**
**Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU.**
**Ffôn/ffacs: (01970) 622143,**
**E-bost jjt998@aber.ac.uk**

a dywedwch ba fath o ffrind (llythyr, ffôn neu e-bost) yr hoffech fod.

*Cofiwch, does dim angen sgwrs na llythyr hir.*

## Cwpan y Byd ac Ysgol Melin Gruffydd

*(parhad o dudalen 1)*

Mae'n amlwg i un o leiaf o'n rhieni gael ei sgubo gan emosiwn y digwyddiadau. Derbyniwyd y parodi hwn wedi'r penwythnos hwnnw:

(gydag ymddiheuriadau i Ann Griffiths a John Hughes!)

Ar *Cwm Rhondda*

Wele ar y maes yn sefyll
Jenkins bach yn cicio gôl;
Ysgwyd bysedd, rhwbio clustiau,
Nôl â'i draed, a lan â hi.
Tri pwynt arall!
Cymru wedi cario'r dydd.

Plant yr Urdd oedd yno'n canu,
Canu cân i'n llonni ni;
Canu'n well na Shirley Bassey,
Gan mil gwell na Michael Ball!
Byth fe gofiant!
Dyna brofiad iddyn nhw.

Diolch Mair a diolch Sandra
Am roi'ch amser i'n plant ni,
Am weld addysg yn ehangach
Na just maths a bôrin I.T.
Gwych athrawon!
Dyna ffodus ydym ni.

Heb anghofio Alun Higham
Yn ei ddraig a'r mwffler coch;
Wfft i Gibbs a Robert Howley,
Hwn yw eilun Blwyddyn 6.
O! plis aros!
Fe ddaw criced yn y man!

A dyma un o ddisgyblion yr ysgol i adrodd am y profiad o fod yn seremoni agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd:

## Roeddwn i yno - yn Stadiwm y Mileniwm!

Yn Stadiwm y Mileniwm roedd y seremoni agoriadol cyn gêm Cymru yn erbyn Ariannin. Roedd yna nifer o ysgolion o Gymru wedi eu dewis i gymryd rhan yn y seremoni ac roedd ein hysgol ni yno! Yn y stadiwm bydden ni'n cwrdd â llawer o sêr enwog a oedd hefyd yn cymryd rhan yn y seremoni - Bryn Terfel, Shirley Bassey, Cerys Mathews o *Catatonia* a Max Boyce. Roedd yna bobl ifainc yn dawnsio, milwyr yn abseilio o do y stadiwm a chorau yn canu.

Dau o'r gloch ac roeddem ar dân i gychwyn. Roedd yn deimlad mor gyffrous i gerdded drwy'r twnel, doedden ni ddim yn medru cadw'n dawel. Ar ôl troi'r gornel a gweld y dyrfa cofiais y diwrnod pan oedd y stadiwm yn wag ar wahân i'r gweithwyr.

Roeddwn yn dechrau teimlo'r cyffro. Yna roeddwn ar y cae, roedd y to ar gau, y goleuadau yn disgleirio ac roedd pobl o'n blaen, tu ôl, tu cefn - ym mhob man. Daeth Grant Llywelyn i sefyll o'n blaeanau a dechrau arwain y côr. Tra oeddwn ni'n canu roedd y dawnswyr wrth eu gwaith, ac yna wrth i'r tân gwyllt fflachio daeth Cwpan Web Ellis i mewn. Daeth llais y sylwebydd dros yr awyr: "Rhowch groeso i Bryn Terfel a Shirley Bassey". Cododd pawb o'u seddi i'w croesawu, roedd e'n eiliad arbennig. Canu "World in Union" gyda'r sêr - dyna brofiad!

Yng nghanol y gân daeth y dyn camera heibio a doedden ni ddim yn gallu credu - roedden ni ar y teledu dros y byd i gyd. Roeddwn i'n wyn fel y galchen. Roedd yna glap mawr i'r gân hefyd.

Yn canu hefyd roedd Max Boyce a Michael Ball a'r *Ladysmith Black Mambazo*, achos De Affrica oedd wedi ennill y cwpan bedair blynedd yn ôl. Yn sydyn roedd y dyrfa yn sefyll ar eu traed ac yn curo'u dwylo. Edrychais i fyny a gweld y 'Saethau Coch' yn hedfan heibo gan adael mwg amryliw ar eu hôl. Safodd pawb i ganu 'Hen Wlad fy Nhadau', yna drws nesaf â ni i gae Clwb Rygbi Caerdydd i weld Cymru'n curo Ariannin.

**Sam Coates**

**Digwyddiadau CYD**

Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00
*Am fanylion pellach, ffoniwch Padi Phillips - 01222 312293*


# Stiwdio Sioned

Salon Harddwch
Clinig Adweitheg (Reflexology)

**Sioned Bowen Davies**
*I.H.B.C. City & Guilds, I.F.R.*

59b Heol Merthyr, Eglwys Newydd,
Caerdydd. CF14 1DA
Ffôn: 01222 694193

# HYFFORDDIANT LLEISIOL

gan

**Ganwr Proffesiynol ac Athro Profiadol**

*Cysyllter â*

**GARETH RHYS - DAVIES**
01222 - 567633

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222



Plaid Cymru Cangen Gwenfo

**DAFYDD DWY FIL**

sef

**cyngerdd olaf**

**DAFYDD IWAN a'r Band**

**yng Nghaerdydd y Mileniwm hwn**

**Nos Sadwrn 11 Rhagfyr 1999**

**CLWB IFOR BACH - 8.00 p.m.**

**Tocynnau i'w cael drwy ffonio**
**01446 710335 - pris £15 yr un**

NI FYDD TOCYNNAU AR WERTH WRTH Y DRWS – ARCHEBWCH DOCYN AR UNWAITH RHAG I CHI GOLLI'R CYNGERDD HANESYDDOL A CHOFIADWY HWN.
Y CYNTAF I'R FELIN . . .



## PYTHEFNOS AR Y PAITH

**Sgwrs am daith i'r Ariannin**
***gan Geoff Wright***
**yn Ysgol Pencae, Llandaf**
**Nos Wener, Tachwedd 12, 1999**
**am 7.30 p.m.**


£5 y pen, yn cynnwys gwin a chili.
*Elw i'r ysgol, a chroeso cynnes i bawb.*

Ffoniwch Rhian Barnes ar
01222 554416 am docyn.



# *Siop y Felin*

Llyfrau • Cardiau • Casetiau
Disgiau Cryno • Fideos



Uned 3, Tŷ Codas,
54-60 Heol Merthyr,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd.

Ffôn/Ffacs: 01222 692999



# TRYDANWR

**gyda dros**
**20 mlynedd o brofiad**

Ailweirio, gosod systemau larwm
a chawodydd.

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar
**01222 868208**
neu **0468 973229**



# La Zarou
## Brothers Hair Group

***Triniwr Gwallt Merched***

59 Heol Merthyr,
Eglwys Newydd,
Caerdydd.
Ffôn: 01222 615737/529764